**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/FM/3455/18

Mr. David Rees AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

David.rees@cynulliad.cymru

16 Hydref 2018

Annwyl David

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 27 Medi ynghylch y gwrandawiad diweddar i glywed tystiolaeth gan Hub Cymru Affrica sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy gyllid grant gwerth £349,000 y flwyddyn o'r rhaglen Cymru o Blaid Affrica.

Diolch yn fawr iawn i chi am eich caredig am y rhaglen Cymru o Blaid Affrica a'r ymgyrch fyd-eang i gael gwared ar dlodi erbyn 2030.

Y gyllideb flynyddol ar gyfer rhaglen Cymru o blaid Affrica yw £925,000. Mae'r swm hwn yn gynnydd sylweddol o'r gyllideb o £500,000 pan lansiwyd y rhaglen yn 2006, felly mae'n gynnydd sylweddol. Byddaf yn ateb eich cwestiynau eraill yn eu tro.

Roeddech yn gofyn a fyddwn yn ymrwymo i gynnal adolygiad o'n Strategaeth ym maes Datblygu Rhyngwladol, fodd bynnag rwy'n credu y byddai'n fwy priodol i fy olynydd ystyried y mater hwn.

Rydych hefyd wedi gofyn a oes angen inni ystyried dull o weithredu sy'n fwy tebyg i'r un a geir yn yr Alban o ran gweithgarwch datblygu rhyngwladol yn unol â dull yr Alban o weithredu. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa yng Nghymru yn wahanol i'r Alban, lle y mae dolen gyswllt bwysig iawn â Malawi wedi bodoli er dyddiau David Livingstone. Ers y cychwyn cyntaf, rydym wedi cefnogi cysylltiadau rhwng Cymru ac Affrica Is-Sahara pa le bynnag y maen nhw. Rydym wedi canolbwyntio'n hymdrechion ar y cysylltiadau mwyaf hynny ac wedi ceisio ychwanegu gwerth at eu gwaith. O ganlyniad rydym wedi canolbwyntio ar:

- Rhanbarth Mbale o Uganda, lle y mae gan nifer o grwpiau o Gymru gysylltiadau. Mae gennym Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda 3 Ardal ac rydym yn cefnogi rhaglen fawr yn y gymuned i blannu coed. Maent wedi plannu dros 9 miliwn o goed hyd yn hyn.
- Lesotho, lle y mae'r elusen Dolen Cymru, sy'n bodoli ers tro, yn cydlynu gwaith sawl grŵp o Gymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Namibia, lle y mae gan Brifysgol Caerdydd gysylltiad da a Phrifysgol Namibia.

Rydym yn anfon staff o ledled Cymru ar leoliadau gwaith i bob un o'r ardaloedd hyn am gyfnod o 8 wythnos fel rhan o'r Rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol. Hyd yn hyn, rydym wedi cynnig 175 o leoliadau gwaith. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn gweithio gyda phartneriaid lleol ar brosiectau sy'n helpu i gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig ac yn gyfle dysgu a datblygu sgiliau newydd, sgiliau maent yn gallul eu trosglwyddo wrth iddynt ddychwelyd i'w mannau gwaith arferol.

Rydych yn gofyn sut yr ydym yn rhagweld y bydd y trefniadau cyllido newydd yn gweithredu'n ymarferol gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Yn dilyn proses dendro gystadleuol, ym mis Ebrill eleni, gwnaethom gytuno ar gontract gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i gyflenwi'n Cynllun Grantiau Bach. Roedd hi'n glir bod nifer o gyrff eisiau gwneud cais i redeg ein cynllun grantiau, felly hwn oedd y dull mwyaf teg o weithredu.

Yn ddiweddar mae 12 grŵp amrywiol ar draws Cymru wedi cael grantiau yn rownd gyntaf y cynllun newydd a oedd yn gystadleuol iawn. Bydd rownd arall yn cael ei lansio ym mis Hydref. Mae proses adrodd yn ôl gynhwysfawr iawn gennym yn ei lle gyda CGGC ac mae'r rhai sy'n cael y grantiau yn gallu defnyddio gwasanaethau Hub Cymru Affrica i'w helpu i wella'r ffordd y maent yn monitro a gwerthuso'u gwaith. Mae hyn yn bwysig yn enwedig gan fy mod yn ystyried ein cynllun grantiau bach yn cam ymlaen ar gyfer grwpiau o Gymru wrth iddynt ehangu a cheisio sicrhau grantiau mwy o fannau eraill.

Rydych wedi holi pa rôl a fydd gan Lywodraeth Cymru yn yr adolygiad gan Fasnach Deg. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Fasnach Deg Cymru, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru ac sy'n rhan o Hub Cymru Affrica, gynnal adolygiad o'r ymgyrch Cenedl Masnach Deg er mwyn gweld sut y gallant hwy, a ninnau hefyd, hyrwyddo Masnach Deg. Yn ddiweddar, cymerodd swyddogion ran mewn ymweliad llwyddiannus iawn gan wledydd a rhanbarthau sydd â diddordeb ac rydym yn edrych ymlaen at gytuno ar dargedau heriol newydd o ganlyniad i'r adolygiad.

Nid yw diffyg pwerau cyfreithiol yn cyfyngu ar waith y rhaglen Cymru o blaid Affrica. Rydych yn cyfeirio at y ffaith bod cysylltiadau rhyngwladol yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl, ond yng nghyd-destun cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i wneud Deddfau Cynulliad y mae hynny'n berthnasol. Ond caiff y Rhaglen Cymru o blaid Affrica'n ei chyflenwi drwy ddefnyddio pwerau gweithredol Llywodraeth Cymru sydd eisoes wedi'u datganoli y tu allan i Ddeddf Datblygu Rhyngwladol 2002. Nid ydym wedi codi mater pwerau ym maes datblygu rhyngwladol gyda Llywodraeth y DU ac nid wyf yn credu bod angen gwneud hynny er mwyn inni gyflawni ein hamcanion.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith gyda'r ymchwiliad a hoffwn ddymuno pob dymuniad da ichi gyda'r gwaith yr ydych yn ei wneud ar oblygiadau polisi masnach y DU yn y dyfodol i Gymru.

Yn gywir

**CARWYN JONES**